



EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024

Cystadleuaeth 138 – Llefaru Unigol Bl. 5 a 6 (D)

Siopa, Sali Ann Preston

O! Dw i'n hoffi mynd i siopa
Gyda ffrindiau yn yr haf.
Prynu siorts, crys-T a sbectol
Gan obeithio bydd hi'n braf.

Sbio yn y siop chwaraeon -
Mae 'na sêl ar ddillad nawr.
Triô crys pêl-droed a threinyrs,
Ond mae popeth yn rhy fawr!

Ac i 'Primark' awn ni nesa',
Yno mae 'na ddillad rhad.
Prynu sgert a ffrog amryliw,
Dewis siwmpwr i fy nhad.

I lawr y stryd a heibio 'New Look'
Pasio'r siopau ar y stryd,
Mewn i 'Next' yr awn ni nesaf-
O...w.. mae'r dillad yn rhy ddrud!

I'r siop 'sgidiau awn ni wedyn-
Gweld sandalau sgleiniog du,
Naw deg punt a dau ddeg ceiniog-
Bobol bach! Rhy ddrud i fi!

Erbyn hyn mae'n amser cinio,
Rhaid cael sglods a byrgyr mawr.
Mae'r siopa yma'n waith blinedig,
O mae'n braf cael eistedd 'lawr!